Cofnodion o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher 8fed Chwefror 2006 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8 .00pm

Presennol: Maer Colin Jenkins, Cyng Pam Steane Price, Dirprwy Faer Cyng Hugh Towns, Cyng Fran Murphy, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Richard Wallace, Cyng Roy Davies, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Ros Bellamy, Mr Roger Phillips Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Ariannol, Mr Des Davies, Swyddog Technegol

Ymddiheuriadau : Cyng Paul Faulkner.

6704 / Chwefror / 06 Anfonebau i'w talu.

TERRY DAVIES (Sedd newydd i dŷ bach yn Neuadd y sir) £ 28.50
Cynigiwyd gan Cyng C. Jenkins, eiliwyd gan Cyng I. Gwyn

DAVIES ELECTRICAL (GOLEUADAU NADOLIG) £3995.00
Cynigiwyd gan Cyng C. Jenkins, eiliwyd gan Cyng C. Leadbeater

WCVA (CYFLOGAU CHWEFROR) £ 123.62
Cynigiwyd gan Cyng I.Gwyn, eiliwyd gan Cyng C.Jenkins

WCVA (FFI AR GYFER IONAWR) £ 34.66
Cynigiwyd gan Cyng I.Gwyn, eiliwyd gan Cyng C.Jenkins

CHARLES SAMS (GOLEUADAU NADOLIG) £2349.78
Cynigiwyd gan Cyng Hugh Towns, eiliwyd gan Cyng I.Gwyn
Pawb o blaid.

CSC. YN PROFI MANNAU ANGORI'R GOLEUADAU £ 950.00
Gofynnwyd i'r Clerc gwestiynu hyn gan nad oedd wedi'i raglenni.
Cynigiwyd gan Cyng C.Jenkins, eiliwyd gan Cyng R.Bellamy

6705 / Chwefror / 06 Incwm a dderbyniwyd

ARCHEBIANT (4.1.06) £15,072.00

ARCHAEOLEG DYFED £ 2791.75

HYSBYSEB TAN GWYLLT Y.H. £ 100.00

LLOG BANC £ 2.50

6706 / Chwefror / 06 Balansau'r Cyfrif
Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL £15,937.81

LTC CYFRIF CYNILO £39,187.24

LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER £ 1324.59

6707 / Chwefror / 06 Archwiliadau Chwarterol Hydref- Rhagfyr 05.

Mae hyn wedi'i wneud gan y Cyng Hugh Towns a Cyng Ieuan Gwyn. Codwyd y materion canlynol:-

1. Gwobrau ar gyfer y gystadleuaeth ffenestr siop Nadolig. Angen derbynebion ar gyfer cadarnhad. Cynigiwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater y dylid prynu llyfr derbynebion ar gyfer rhoddion o arian parod. Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy.
2. Sicrhau bod gan bob incwm a dderbynnir rhif cofnod.

6708 / Chwefror / 06 Materion Ariannol Eraill.

1. Oriau'r Swyddog Technegol.
   Oherwydd y pwysau o wneud yn siŵr fod yr arddangosfa Tân Gwyllt a digwyddiadau parthed y Goleuadau Nadolig yn cael eu cwblhau yn ddiogel a llwyddiannus, adroddwyd fod y Swyddog Technegol wedi gweithio'r oriau canlynol y tu hwnt i'w oriau arferol
   Hydref – 26 awr
   Tachwedd – 10.5 awr
   Rhagfyr - 10.5 awr
   Mae hyn hefyd oherwydd bod y Cyngor wedi bod heb Swyddog Technegol am chwe mis cyn y penodiad presennol, sydd wedi creu llwyth gwaith oedd heb ei wneud.
   Teimlwyd hefyd y dylai oriau gwaith y Swyddog Technegol gynyddu o 5 i 7 awr yr wythnos. Bydd hyn yn cael ei argymell yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn.
   Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy.

6709 / Chwefror / 06 Archwiliad 2006.

Yn dilyn trafodaethau ynglŷn ag archwiliad eleni cafwyd yr argymhellion canlynol

1. Dyddiad yr Archwiliad – Hydref 20fed, 2006.
2. Rhybuddion parthed yr Archwiliad i'w gosod erbyn Medi 4ydd, 2006.
3. Cyfrifon i'w cyflwyno i'r Cyngor erbyn Medi 30ain, 2006.

Cynigiwyd gan Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan Cyng Pam Steane Price
Bydd Mr Lyn Llewellyn yn cael ei ofyn i fod yn Archwiliwr mewnol i'r Cyngor ar gyfer 2006.
Cynigiwyd gan Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan Cyng Charlotte Leadbeater.

6710 / Chwefror/ 06 Gohebiaeth sy'n Gysylltiedig â Chyllid

1. Eglwys Llandeilo yn gwneud cais am grant tuag at gynnal a chadw Mynwent yr Eglwys. Gan fod hwn yn y gyllideb, cynigiodd Cyng Colin Jenkins fod £1000 yn cael ei roi. Eiliwyd gan Cyng Ieuan Gwyn. Hefyd dylid dweud wrth yr Eglwys y bydd y fynwent yn y dyfodol yn cael ei chynnwys yn y rhaglen flynyddol o gynnal a chadw llwybrau troed.
2. Llywodraeth Cynulliad Cymru – Rhybudd bod rhoddion o dan Adran 137 yn cael ei seilio ar uchafswm o £5.44 yr etholwr
3. Greenbarns - dyfynbris ar gyfer hysbysfwrdd newydd fel rhan o'r Prosiect Treftadaeth yn lle'r un sydd o dan y bwa sy'n arwain allan i Stryd Rhosmaen. Bydd y Cyng Colin Jenkins yn ceisio cael cyfarfod gyda pherchennog yr adeilad.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.05pm.



Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk